Annwyl Bawb

E-FWLETIN 35 – 11 TACHWEDD 2009

Mae'n anodd credu ein bod bron hanner ffordd trwy fis Tachwedd a dim ond rhyw chwe wythnos tan y Nadolig!

Mae'r Morlan yn brysur iawn ar hyn o bryd hefyd, gyda nifer fawr o fudiadau a grwpiau yn cyfarfod yma a digon o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yma.

Efallai nad ydych yn gwybod ond y mae yna glwb ieuenctid – Clwb Clex – yn cyfarfod yma bob nos Wener yn ystod tymor ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am y clwb o fewn gwefan Morlan.

Mae'r clwb yn chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo ar ambell i nos Wener neu i ymuno â Phwyllgor y Clwb (neu'r ddau!). Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am redeg y clwb – llunio rhaglen, trefnu cyhoeddusrwydd, codi arian, ac ati. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, neu yn gwybod am rywun fyddai'n mwynhau gwneud gwaith o'r fath, neu os hoffech ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at clwbclex@hotmail.co.uk, neu dewch i'r bore coffi ar 21 Tachwedd (manylion isod)!

BORE COFFI ER BUDD CLWB CLEX
10.00-12.00, Sadwrn, 21 Tachwedd
Bore Coffi i godi arian at y clwb ieuenctid. Bydd yno raffl a stondinau amrywiol, gan gynnwys cacennau, llyfrau, tombola, cardiau Nadolig a llawer mwy! Gobeithio'n fawr y dewch i'w cefnogi!

"POBL IFANC – EU CYFRANIAD I GYMDEITHAS"
7.00, nos Lun, 23 Tachwedd
Trafodaeth ar y pwnc uchod gydag Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr yr Urdd. Cadeirydd: Elin Haf Gruffydd-Jones. Morlan sydd wedi trefnu'r noson hon er mwyn rhoi cyfle i holi a thrafod materion sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i fod yn rhan o'r broses penderfynu ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mynediad am ddim ond derbynnir cyfraniadau i Gronfa Eisteddfod yr Urdd Ceredigion.

Noder isod manylion y digwyddiadau eraill.

QUIDZ IN
9.30-11.30, boreau Iau
Cwrs 10-wythnos di-dâl sy'n rhoi cymorth ymarferol i rieni magu plant sy'n hyderus yn ariannol. Noddir y cwrs gan Cantref, Cymunedau'n Gyntaf a Credit Action Cymru, a bydd yn cael ei gynnal bob bore Iau nes 10 Rhagfyr. Manylion pellach: 0800-242-5844

CYMHORTHFA MARK WILLIAMS, AS
10.30-12.00, Gwener, 13 Tachwedd
Cysyllter â swyddfa'r Rhyddfrydwyr Democrataidd am fanylion pellach (01970-615880).

"BETHLEHEM HIDDEN FROM VIEW"
7.00, nos Sadwrn, 14 Tachwedd
Ffilm yn adrodd stori'r hyn sy'n digwydd ym Methlehem trwy lygaid Iddewon a Phalesteiniaid. Ffilm gan yr Amos Trust ydyw – mudiad sy'n hyrwyddo hawliau dynol a chyfiawnder mewn gwledydd megis Israel a Phalesteina, Nicaragua a'r India. Stondinau a lluniaeth ysgafn hefyd. Mynediad am ddim – cyfraniadau i gangen leol Ymgyrch Cefnogi Palesteina.

GWASANAETH AMNEST
6.00, nos Sul, 15 Tachwedd
Gwasanaeth dan ofal cangen leol Amnest Rhyngwladol a chyfle i arwyddo cardiau Nadolig i garcharorion cydwybod. Croeso i bawb.

ANERCHIAD GAN TEGWYN JONES: *"FACIWÎS YNG NGHYMRU"*
2.30, dydd Iau, 19 Tachwedd
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr